| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Medi 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Addasiad i gynnig Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth Aelodau'r Cabinet i ymgynghori ynglŷn ag addasiad posibl i'r cynnig o gau Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair ac agor Ysgol Ardal newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet sy'n cymeradwyo ymgynghori ynglŷn ag addasu'r amserlenni gwreiddiol a nodwyd, mewn perthynas â sefydlu ysgol newydd i wasanaethu ysgolion presennol Llanfair a Phentrecelyn.

Ar hyn o bryd dylid ystyried rhinweddau ceisio'r addasiad yn unig yn hytrach na phenderfynu ar y cynnig ei hun. Pe rhoddir cymeradwyaeth bydd y Cabinet yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, ynglŷn â'r addasiad, yng nghyfarfod mis Hydref fel rhan o'r broses o benderfynu ar y cynnig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Cymeradwyo ymgynghori ag Esgobaeth Llanelwy, fel cyd-gynigydd, i ofyn am eu caniatâd i wneud yr addasiad arfaethedig.

(ii) Cael cydsyniad Gweinidogion Cymru i wneud yr addasiad arfaethedig.

(iii) Ymgynghori â chyrff llywodraethu Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair ynglŷn â'r addasiad arfaethedig.

(iv) Bod y Cabinet yn cytuno bod yr argymhellion i gael eu gweithredu ar unwaith yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor, sydd wedi eu cynnwys yn y cyfansoddiad, o ran galw materion i mewn yng ngoleuni'r amgylchiadau a nodir isod.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Yn Chwefror 2015, cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth ag Esgobaeth Llanelwy, yr Eglwys yng Nghymru, ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r

cynnig i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2016 a sefydlu ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016.

4.2 Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 18 Mehefin 2015 hyd 15 Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael bellach.

4.3 Roedd y cynnig yn nodi y byddai Cyngor Sir Ddinbych yn cau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016; ac y byddai'r Eglwys yng Nghymru yn sefydlu Ysgol Ardal newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016. Byddai'r ail gam yn cyfuno'r Ysgol Ardal ar safle newydd yn ardal Llanfair/Pentrecelyn.

4.4 Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori o ran yr ail gam bod y Cyngor yn cynnig y byddai'r adeilad newydd yn barod erbyn mis Medi 2017, a fyddai'n sicrhau mai dim ond am un flwyddyn academaidd y byddai'r ysgol wedi ei rhannu dros ddau safle. Mae'r arwyddion diweddaraf, yn dilyn gwneud gwaith dichonoldeb cychwynnol, yn dangos efallai nad yw'r dyddiad hwn yn realistig mwyach.

4.5 Mae'r Cyngor wedi ystyried nifer o ffactorau mewn perthynas â hyn. Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol cafodd pryderon eu mynegi ynghylch faint o amser y byddai'r ysgol ardal mewn bodolaeth ar ddau safle. Yn ogystal gellid dadlau y gallai oedi posibl yn yr amserlen helpu i ddarparu'r newidiadau y mae angen eu gwneud o ran arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol newydd. Er y gellid goresgyn y materion hyn pe digwydd i'r ail gam fynd rhagddo fel y cynlluniwyd, ar y cyfan, ystyrir y byddai oediad o 12 mis yn rhoi rhagor o gyfnod i gyfuno'r ysgol. Byddai potensial hefyd i ddod â'r amserlen ar gyfer gweithredu yn unol â chynigion eraill yn ardal Rhuthun.

4.6 Ni fydd yr addasiad hwn yn newid y deilliant terfynol. Mi fydd yn lleihau'r amser y bydd yr ysgol ardal newydd yn gweithredu dros 2 safle gwahanol, sydd o safbwynt addysgol o fudd i'r plant.

4.7 Yr addasiad, felly, fyddai cau'r 2 ysgol ar 31 Awst 2017, yn hytrach na 2016, a bod yr Eglwys yng Nghymru yn sefydlu Ysgol Ardal newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2017, yn hytrach na 2016. Byddai hyn yn caniatáu rhagor o amser i'r 2 ysgol weithio'n agos gyda'i gilydd cyn y cyfuno a gallai hynny olygu bod yr Ysgol Ardal ar 2 safle ar wahân am gyfnod byrrach o amser, h.y. pe bai'r adeilad newydd yn barod ar gyfer mis Ionawr 2018 un tymor yr unig fyddai'r cyfnod.

Lle cynigir addasiadau mae adran 5.3 y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn datgan y canlynol:

> "Dim ond newidiadau fel amseriad gweithredu'r cynigion neu niferoedd derbyn y gall addasiadau ymwneud â hwy. **Rhaid** i'r awdurdod lleol beidio â gwneud addasiadau a fyddai i bob diben yn cyflwyno cynnig newydd yn lle'r cynnig a gyhoeddwyd. Cyn gwneud unrhyw addasiad, **rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori'n gyntaf â'r cynigydd a sicrhau bod y cynigydd yn cydsynio â'r addasiad.

**Rhaid** iddynt hefyd gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Os na ellir cael cydsyniad, a bod yr awdurdod lleol o’r farn nad yw’r cynigion yn dderbyniol yn y ffurf y cyhoeddwyd hwy, **rhaid** iddo wrthod y cynigion.

**Rhaid** i'r awdurdod lleol hefyd ymgynghori â chorff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn berthnasol iddi (os nad y corff llywodraethu yw'r cynigydd).”

4.8 Byddai’r addasiad hefyd yn rhoi rhagor o amser i sefydlu Corff Llywodraethu dros dro newydd ac i ddatblygu ethos yr ysgol newydd ac i ddatblygu ei pholisïau. Rydym yn rhagweld y bydd y Corff Llywodraethu dros dro yn cynnwys aelodau presennol cyrff llywodraethu Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ac rydym yn rhagweld y bydd ganddynt ran fawr i'w chwarae o ran helpu i ddylunio adeilad yr ysgol newydd.

4.9 O ran argymhelliad (iv), mae hyn yn ymwneud ag amserlen penderfynu ar y cynnig. Mae'n angenrheidiol mynd a hyn ger bron y Cabinet ar 27 Hydref i benderfynu ar y cynigion, gan fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi’r canlynol:

“O dan adran 53 o Ddeddf 2013, **rhaid** i'r cynigydd wneud penderfyniad cyn pen 16 wythnos (112 diwrnod) o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Os bydd y cynigydd yn methu â phenderfynu ar y cynnig cyn pen 16 wythnos, ystyrir ei fod wedi tynnu'r cynnig yn ôl a bydd angen iddo ailgyhoeddi'r cynigion os hoffai barhau.”

Daeth y cyfnod gwrthwynebu ar gyfer y cynnig i ben ar 15 Gorffennaf 2015.

4.10 I gydymffurfio â’r Cod Trefniadaeth Ysgolion, o ran unrhyw addasiadau a wneir i’r cynnig, rhaid inni ymgynghori â chyrff llywodraethu’r ddwy ysgol a chael cydsyniad y Gweinidog, fel y nodir yn adran 4.6.

4.11 Wrth argymell bod y penderfyniad hwn yn cael ei weithredu ar unwaith, bydd yn caniatáu digon o amser i ymgynghori â’r 2 gorff llywodraethu ac i geisio cael cydsyniad y Gweinidog. Pe rhoddir cymeradwyaeth bydd y Cabinet yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, ynglŷn â’r addasiad, yng nghyfarfod mis Hydref fel rhan o'r broses o benderfynu ar y cynnig.

<u>Y Ffordd Ymlaen</u>

4.12 Argymhellir bod y Cyngor yn bwrw ymlaen i ymgynghori ar addasu'r cynnig fel sydd wedi ei fanylu.

4.13 Yn dilyn hyn, gofynnir i'r Cyngor yn y cyfarfod ar 27 Hydref, i ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir i’r Hysbysiad Statudol ac i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r cynnig yn cefnogi’r flaenoriaeth o “Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol” ac wedi’i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: “Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgolion ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu’r nifer cywir o leoedd ysgol, sydd o’r math cywir, yn y lleoliad cywir.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd costau bychan i'r Cyngor.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylai fod templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a’i atodi i'r adroddiad.**

7.1 Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref mewn perthynas â’r penderfyniad cyffredinol ynghylch y cynnig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda’r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o ganfyddiadau’r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol yn yr Adroddiad Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ac Esgobaeth Llanelwy, yr Eglwys yng Nghymru ar 11 Awst. https://www.sirddinbych.gov.uk/cy/eich-cyngor/ymgynghoriadau/llanfair-dc-pentrecelyn-consultation-report-cy-v2.pdf

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ni fydd yr argymhelliad yn arwain at unrhyw gostau uniongyrchol ychwanegol sylweddol. Bydd angen rhoi ystyriaeth yn y gyllideb ariannu cyfalaf i’r oedi cyn rhyddhau arbedion yn sgil cyfuno’r ysgolion a’r oedi o ran y costau cyfalaf ond ni fydd effaith andwyol ar fforddiadwyedd y prosiect.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ynglŷn â’r Cyngor a sylwadau cyhoeddus niweidiol.
Er mwyn lleihau'r risg, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda’r holl fudd-ddeiliaid.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)